Rhif: WG33674

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf yr Economi Ddigidol (2017)

## Rhestr Arfaethedig o Gyrff sy'n Rhannu Data yng Nghymru

Ebrill 2019

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cyflwyniad

Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol (2017) bwerau newydd mewn cysylltiad â rhannu data a gwybodaeth i gyrff cyhoeddus. Bwriad y pwerau newydd hyn ydy cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, a nodi a mynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus a dyledion sy'n ddyledus iddo.

Er mwyn i gorff cyhoeddus allu defnyddio'r pwerau newydd hyn, rhaid iddo gael ei enwi yn Atodlenni'r Ddeddf ei hun. Ar ben hynny, i ddefnyddio'r pwerau newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i unigolion ac i aelwydydd, rhaid i'r corff cyhoeddus gael ei enwi yn erbyn amcan penodol a fydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau ar wahân. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno rheoliadau newydd a fydd yn nodi pedwar amcan cychwynnol ar gyfer y pwerau darparu gwasanaethau cyhoeddus: Anfanteision Amryfal, Ail-Diwnio Setiau Teledu, Tlodi Tanwydd a Thlodi Dŵr.

Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr 2018 gofynnom am safbwyntiau ar ba gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru y dylid eu cynnwys yn Atodlenni'r Ddeddf, a pha rai o'r cyrff hynny dylid eu henwi ar gyfer pob un o'r pedwar amcan sydd wedi cael eu diffinio gan Lywodraeth y DU. Ar yr un adeg, gofynnom am safbwyntiau ar ba amcanion gallai Gweinidogion Cymru ystyried eu pennu yn y dyfodol, ac am safbwyntiau ar sut gellid defnyddio'r pwerau newydd i gefnogi a hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif themâu yn yr ymatebion a gawsom ac yn esbonio'r hyn rydym wedi'i wneud yn barod, ac yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol, o ganlyniad i'r adborth hwn.

## 1. Crynodeb o’r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 25 ymateb:

- 17 gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys 4 Bwrdd GIG yng Nghymru);
- 2 gan sefydliadau gwirfoddol (1 yn y DU, 1 yng Nghymru);
- 4 gan sefydliadau eraill; a
- 2 gan unigolion

Oni bai am ddau, roedd pob un o'r 25 ymateb a gafwyd gan sefydliadau neu unigolion wedi’u lleoli’n gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru.

Cafwyd ymatebion gan Swyddfa Cymru'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ar ran Gweinidogion yr Alban hefyd.

## 2. Dull

Roedd hi’n bosibl cael gafael ar y ddogfen ymgynghori a’r ffurflen ymateb drwy wefan ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru.

Cysylltodd Llywodraeth Cymru â chyrff cyhoeddus ledled Cymru i'w hannog i ymateb i’r ymgynghoriad. Cyhoeddodd Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru neges flog fer ar yr ymgynghoriad hefyd, yn annog cyrff ac unigolion â diddordeb i ymateb.

Ar ddechrau’r broses hon, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddwyn yr ymgynghoriad i sylw'r ymgyngoreion statudol canlynol fel y mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn ei fynnu:

- Gweinidogion Swyddfa’r Cabinet;
- Y Comisiynydd Gwybodaeth;
- Gweinidogion yr Alban;
- Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi; ac
- Adran Gyllid Gogledd Iwerddon

Ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, gwnaethom adolygu'r holl ymatebion ac ystyried yr holl awgrymiadau o ran newidiadau i’r hyn roeddem wedi’i awgrymu yn yr ymgynghoriad. Cafodd y rhain eu hasesu yn erbyn diffiniad corff cyhoeddus fel y nodir yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017. Gwnaethom hefyd geisio cyngor gan bob rhan o Lywodraeth Cymru ynghylch a fyddai

gan y cyrff hyn, neu a fyddent yn gallu defnyddio, y math(au) o ddata a fyddai'n golygu eu bod yn gallu defnyddio'r pwerau rhannu data newydd yn effeithiol ai peidio.

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r ymatebion a gawsom ac yn nodi pa newidiadau a wnaed o ganlyniad iddynt.

## 3. Pwerau Twyll a Dyled

Bydd y pwerau newydd yn Neddf yr Economi Ddigidol yn caniatáu i rai cyrff cyhoeddus rannu data â'i gilydd er mwyn helpu i adnabod a mynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus, ac adnabod a mynd i'r afael â dyledion sy'n ddyledus i awdurdodau cyhoeddus. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 1:**

Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i roi pwerau rhannu data ar gyfer twyll neu ddyled iddynt?

Cawsom 13 ymateb i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 7 |
| Anghytuno | 5 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 |
| Cyfanswm | 13 |

**Cwestiwn 2:**

A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys? Nodwch p'un a fyddai angen eu cynnwys at ddibenion atal twyll, neu nodi a rheoli dyled.

Atebodd 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cafwyd nifer uchel o awgrymiadau i gynnwys awdurdodau cyhoeddus ychwanegol mewn cysylltiad â'r pwerau twyll a dyled. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Heddluoedd Cymru
- Cyrff iechyd
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Nid yw plismona'n fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, felly nid yw Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ei gynnwys at y dibenion hyn. Felly, nid yw heddluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu cynnwys yn atodlen y DU ar gyfer y pwerau hyn. Rydym yn cydnabod budd posibl cynnwys yr Heddlu, yn enwedig ar gyfer y pwerau twyll, a byddwn yn ystyried yn ofalus

a oes angen i ni weithio gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU i gynnwys heddluoedd yn y dyfodol.

Cafodd cyrff iechyd eu hawgrymu hefyd, yn arbennig at ddibenion delio â dyledion sy'n ddyledus gan ddinasyddion nad ydynt o'r UE ar gyfer triniaeth nad oedd yn driniaeth frys. Fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu enwi cyrff iechyd mewn cysylltiad ag amcanion y DU. Yn ogystal, mynegodd llawer o gyrff iechyd bryderon y gallai rhannu data mewn cysylltiad â dyledion wneud unigolion yn gyndyn o geisio cymorth meddygol pan mae ei angen arnynt, os oeddent yn credu y gallai eu gwybodaeth bersonol gael ei rhannu. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â'r pryderon a godwyd ynglŷn ag ymestyn y pwerau twyll a dyled newydd i gyrff iechyd, a byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw gynigion i ymestyn y pwerau i gyrff iechyd yn y dyfodol.

Roeddem yn cytuno â'r awgrym i gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. O ran y pwerau twyll, roeddem yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn gallu rhannu'r data maent yn eu dal ag awdurdodau lleol ac adrannau llywodraeth eraill, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi, mewn achosion lle mae amheuaeth o dwyll.

O ran y pwerau dyled, roeddem yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol, mewn achosion lle mae gan unigolion fwy nag un ddyled i gyrff cyhoeddus, cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i wneud yn siŵr y gellir asesu'r darlun llawn o ddyled unigolyn yn iawn wrth geisio a rheoli ad-daliadau.

**Penderfyniad**

Ychwanegwyd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at yr atodlenni ar gyfer y pwerau Twyll a Dyled ill dau.

Tynnwyd y cyrff canlynol o'r rhestr arfaethedig o gyrff i gael y pŵer twyll:

- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Amgueddfa Cymru

Y rheswm am hyn ydy ein bod yn teimlo, ar ôl ymchwilio ymhellach, nad oedd ganddynt y math o ddata sydd eu hangen i allu defnyddio'r pwerau'n effeithiol.

## 4. Pwerau Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Deddf yr Economi Ddigidol hefyd yn rhoi’r pwerau i rannu data er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, mewn cysylltiad â’r pedwar amcan canlynol sydd wedi’u diffinio gan Lywodraeth y DU, i rai cyrff cyhoeddus – Anfanteision Amryfal, Ail-Diwnio Setiau Teledu, Tlodi Tanwydd a Thlodi Dŵr.

### 4.1 Yr Amcan Anfanteision Amryfal

Bydd y pwerau newydd yn galluogi cyrff cyhoeddus i rannu data er mwyn gwella’r gwasanaethau cyhoeddus sy’n cael eu darparu i unigolion a/neu i aelwydydd y mae mwy nag un anfantais yn effeithio arnynt, fel anabledd, diweithdra neu gam-drin domestig. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 3:**

Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan anfanteision amryfal?

Atebodd y 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 5 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 |
| Cyfanswm | 12 |

**Cwestiwn 4:**

A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr
amcan anfanteision amryfal?

Cafwyd 18 ymateb i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Heddluoedd Cymru
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Colegau addysg bellach a phrifysgolion
- Cyrff iechyd

Gan nad ydy plismona'n fater datganoledig yng Nghymru, dim ond Senedd y DU sy'n gallu cynnwys heddluoedd. Mae paragraff 22 yn Atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cynnwys 'prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr'. Felly, bydd heddluoedd yng Nghymru yn gallu defnyddio'r pwerau newydd ochr yn ochr â chyrff datganoledig a chyrff heb eu datganoli eraill.

Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y gallai cyrff cyhoeddus a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddal gwybodaeth werthfawr am denantiaid o ran yr heriau a'r anfanteision maent yn eu hwynebu. Roeddem yn cytuno â'r awgrym hwn ac roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eisoes wedi'u cynnwys ar ein rhestr arfaethedig o gyrff i'w henwi yn erbyn yr amcan hwn.

Awgrymwyd Awdurdodau Tân ac Achub hefyd, ond mae'r rhain wedi'u cynnwys ar y rhestr arfaethedig yn barod.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod eithrio cyrff iechyd yn anffodus oherwydd byddai ganddynt wybodaeth werthfawr i'w cyfrannu at unrhyw ymarfer rhannu data. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu cynnwys cyrff iechyd ar gyfer unrhyw un o'r pedwar amcan gwasanaethau cyhoeddus mae Llywodraeth y DU wedi'u diffinio. Mae rhagor o fanylion am gynnwys cyrff iechyd i'w gweld yn Adran 5.

**Penderfyniad**

Rydym wedi tynnu Ysgolion Annibynnol a sefydliadau addysg ôl-16 arbennig o'r rhestr – y rheswm am hyn yw, ar ôl ystyriaeth ychwanegol, nad ydy'r rhain yn bodloni diffiniad awdurdod cyhoeddus y gellir ei enwi yn Atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017.

Rydym wedi tynnu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o'r rhestr o'r cyrff i'w henwi hefyd. Mae hyn oherwydd ein bod yn teimlo, ar ôl ymchwilio, na fyddai gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y mathau o ddata sydd eu hangen i gefnogi trefniadau rhannu data dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, ac na fyddai eu hangen arnynt chwaith.

### 4.2 Yr Amcan Ail-Diwnio Setiau Teledu

Mae'r amcan hwn wedi'i gynllunio i ganiatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol rannu gwybodaeth sy'n helpu i nodi unigolion ac aelwydydd a allai fod yn gymwys i gael cymorth dan gynllun ail-diwnio setiau teledu, ac i gysylltu â'r unigolion a'r aelwydydd hyn. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 5:**

Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan ail-diwnio setiau teledu?

Atebodd y 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 6 |
| Anghytuno | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
| Cyfanswm | 12 |

**Cwestiwn 6:**

A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan ail-diwnio setiau teledu?

Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr awgrymiadau o ran cyrff ychwanegol i'w cynnwys yn debyg i'r awgrymiadau a wnaed ar gyfer yr amcan anfanteision amryfal; ac roeddent yn cynnwys:

- Cyrff iechyd
- Awdurdodau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Heddluoedd Cymru

Gan nad ydy plismona'n fater datganoledig yng Nghymru, dim ond Senedd y DU sy'n gallu cynnwys heddluoedd. Mae paragraff 22 yn Atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cynnwys 'prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr'. Felly, bydd

heddluoedd yng Nghymru yn gallu defnyddio'r pwerau newydd ochr yn ochr â chyrff datganoledig a chyrff heb eu datganoli eraill.

Fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu enwi cyrff iechyd mewn cysylltiad ag amcanion y DU. Mae rhagor o fanylion am gynnwys cyrff iechyd i'w gweld yn Adran 5.

Roeddem hefyd yn cytuno â'r awgrym i gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer yr amcan hwn, gan fod landlordiaid cymdeithasol yn debygol o ddal gwybodaeth am eu tenantiaid a fyddai'n dangos a allent fod yn gymwys i gael cymorth fel rhan o gynllun ail-diwnio setiau teledu. Roeddem eisoes wedi cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar ein rhestr arfaethedig.

**Penderfyniad**

Ni chafodd newidiadau eu gwneud i'r rhestr o gyrff sy'n gallu rhannu data dan yr amcan ail-diwnio setiau teledu.

## 4.3 Yr Amcan Tlodi Tanwydd

Bydd yr amcan hwn yn caniatáu i gyrff cyhoeddus penodol rannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus penodol eraill a chyflenwyr nwy a thrydan i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 7:**

Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan tlodi tanwydd?

Atebodd y 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 5 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 |
| Cyfanswm | 12 |

**Cwestiwn 8**

A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan tlodi tanwydd?

Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr awgrymiadau o ran cyrff ychwanegol yn cynnwys:

- Cyrff iechyd
- Sefydliadau addysg
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Fel y nodir uchod, nid ydym yn gallu cynnwys cyrff iechyd ar gyfer unrhyw un o'r amcanion gan fod y rhain yn cynnwys cyrff cyhoeddus y DU hefyd.

Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu y byddai ysgolion, colegau a phrifysgolion yn debygol o ddal gwybodaeth am fyfyrwyr a'u teuluoedd a allai ddangos eu bod yn byw mewn tlodi tanwydd, ac y dylid eu cynnwys. Roeddem yn cytuno â'r awgrym hwn.

Cafodd awgrym ei wneud i hefyd gynnwys sefydliadau – fel elusennau – sy'n darparu cymorth i bobl ag anableddau dysgu penodol neu anableddau eraill a allai fod yn cael trafferth deall biliau neu waith papur arall. Er ei bod yn bosibl fod gan y sefydliadau hyn gyfoeth o ddata y gallent eu rhannu i gefnogi'r amcanion tlodi tanwydd a dŵr, dim ond i sefydliadau sy'n bodloni'r diffiniad a nodir yn Rhan 45(1) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017, sy'n cyfyngu'r pwerau i sefydliadau sy'n ymgymryd â thasgau o 'natur gyhoeddus', mae'r pwerau newydd ar gael. Mae Adran 45(8) hefyd yn nodi na fyddai sefydliad yn cael ei ystyried yn gorff cyhoeddus os yw'n ymgymryd â'r tasgau hynny ar ran awdurdod cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu na ellir rhoi'r pwerau newydd yn uniongyrchol i elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu cymorth i unigolion ag anableddau dysgu neu anableddau eraill. Fodd bynnag, os yw sefydliad cymorth yn 'darparu gwasanaethau mewn cysylltiad ag amcan penodol i berson penodol sy'n awdurdod cyhoeddus', mae'n bosibl y bydd yn gallu rhannu data mewn rhai amgylchiadau.

**Penderfyniad**

Cafodd ysgolion sy'n cael arian cyhoeddus, colegau addysg bellach a phrifysgolion i gyd eu hychwanegu at y rhestr o gyrff sy'n gallu rhannu data dan yr amcan tlodi tanwydd.

Rydym hefyd wedi penderfynu cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr amcan hwn ar ôl ymchwiliadau pellach yn Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn 'ymatebwr cyntaf' mewn achos o ddigwyddiad amgylcheddol mawr ac roeddem yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol iddo allu rhannu gwybodaeth am ddinasyddion mae'n nodi eu bod mewn angen y gallai ddod yn ymwybodol ohonynt wrth ymateb i ddigwyddiadau.

### 4.4 Yr Amcan Tlodi Dŵr

Mae'r amcan tlodi dŵr yn debyg i'r amcan tlodi tanwydd o ran y bydd cyrff cyhoeddus sy'n cael eu henwi yn erbyn yr amcan hwn yn gallu rhannu data â chyrff cyhoeddus eraill yn ogystal â darparwyr dŵr a charffosiaeth, a hynny i helpu aelwydydd incwm isel nad oes modd eu cyflenwi â gwasanaethau dŵr a charffosiaeth am gost resymol. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 9**

Ai'r rhain yw'r unigolion a'r sefydliadau datganoledig cywir i gefnogi'r amcan tlodi dŵr?

Atebodd y 12 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 8 |
| Anghytuno | 2 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 |
| Cyfanswm | 12 |

**Cwestiwn 10:**

A oes unrhyw unigolion neu sefydliadau datganoledig ychwanegol y gellid eu cynnwys ar gyfer yr amcan tlodi dŵr?

Cafwyd nifer o awgrymiadau o ran cyrff ychwanegol y gellid ymestyn y pwerau hyn iddynt. Roedd y rhain yn debyg i'r rhai a awgrymwyd ar gyfer yr amcan tlodi tanwydd a'r amcanion eraill:

- Cyrff iechyd
- Sefydliadau addysg
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Sefydliadau cymorth.

**Penderfyniad**

Yn yr un modd â'r newidiadau a wnaed dan yr adran tlodi tanwydd, cafodd ysgolion sy'n cael arian cyhoeddus, colegau addysg bellach a phrifysgolion i gyd eu hychwanegu at y rhestr o gyrff sy'n gallu rhannu data dan yr amcan tlodi dŵr. Yn debyg, rydym hefyd wedi penderfynu cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, a hynny am yr un rhesymau ag y rhoddwyd ar gyfer yr amcan tlodi tanwydd.

## 5. Amcanion Cymru yn unig

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio amcanion Cymru yn unig ychwanegol, a fyddai'n caniatáu i gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru rannu data dan Bennod 5 y Ddeddf. Gofynnom am awgrymiadau o ran pa amcanion Cymru yn unig fyddai eu hangen yn y dyfodol efallai er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 11:**

A oes unrhyw amcanion eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu datblygu yn y dyfodol, a beth yw'r rhwystrau presennol o ran peidio â rhannu data at y dibenion hynny?

Cafwyd nifer o awgrymiadau, gan gynnwys:

- Ymyrraeth gynnar i deuluoedd sy'n cael anawsterau;
- Cefnogi pobl agored i niwed gyda'u biliau cyfleustodau;
- Lleihau'r lefelau o ddyled ddrwg i wasanaethau dŵr/carthffosiaeth;
- Helpu cleifion i ddeall a rheoli eu salwch yn well;
- Cefnogi pobl sy'n gadael gofal cymdeithasol;
- Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- Nodi a chefnogi defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth; a
- Lleihau cyfraddau atgwympo ymysg categorïau penodol o droseddwyr

Gofynnom hefyd beth sy'n atal data rhag cael eu rhannu ar gyfer y rhesymau hyn ar hyn o bryd. Cafwyd amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:

- Amheuon ynghylch cywirdeb y data ac a yw'n ymwneud â'r person(au) cywir;
- Ansicrwydd o ran y sail gyfreithiol dros rannu;
- Diffyg dull diogel o drosglwyddo data;
- Protocolau rhannu nas defnyddir neu rai sydd heb eu datblygu'n ddigonol; a
- Phwyll sefydliadol

**Cwestiwn 12:**

Pa unigolion neu sefydliadau y gellid rhoi pwerau iddynt rannu data er mwyn cefnogi'r amcanion hynny?

Dim ond 4 awgrym a wnaed ar gyfer cyrff ychwanegol y gellid eu cynnwys, sef:

- Gweithwyr iechyd;
- Aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Unrhyw gorff sector cyhoeddus sy'n dal gwybodaeth a allai fod o gymorth i'r amcan penodol; a
- Sefydliadau perthnasol yn y sector gwirfoddol.

Fel y nodir yn adran 5, rydym wedi cynnwys cyrff iechyd ar gyfer yr amcan darparu gwasanaethau cyhoeddus, sy'n golygu y byddant yn gallu rhannu data â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ar ôl iddynt gael eu henwi yn erbyn amcan penodol.

Rydym yn credu mai'r awdurdodau cyhoeddus yr ydym wedi'u henwi yw'r rhai a fydd yn gallu defnyddio'r pwerau newydd yn llawn. Pe bai amcan newydd yn elwa ar ychwanegu partneriaid sector cyhoeddus eraill, byddem yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw newidiadau i Atodlen 4 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cael eu diwygio i ganiatáu eu henwi.

Fel yr esbonnir yn adran 5.3, nid ydym yn gallu ymestyn y pwerau newydd yn uniongyrchol i sefydliadau'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol gan nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o awdurdod cyhoeddus at y diben hwnnw. Fodd bynnag, os yw sefydliad yn gwneud gwaith sy'n ymwneud yn benodol ag amcan ar ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi'i enwi, bydd yn gallu defnyddio'r pwerau newydd ar ran yr awdurdod cyhoeddus hwnnw.

**Penderfyniad**

Nid oes cynlluniau yn y dyfodol agos i gyflwyno amcanion Cymru yn unig ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, ond byddwn yn adolygu'r holl awgrymiadau hyn ac unrhyw awgrymiadau yn y dyfodol i ystyried a ddylid eu mabwysiadu ai peidio. Gellid gwireddu rhai o'r awgrymiadau a ddarparwyd mewn ymateb i Gwestiwn 11 drwy'r amcanion sydd eisoes wedi cael eu cynnwys mewn rheoliadau gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt i sicrhau bod y pwerau newydd yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl.

Bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU gytuno ar unrhyw amcanion a awgrymwyd a fyddai'n elwa ar gynnwys cyrff cyhoeddus heb eu datganoli.

## 6. Cyrff iechyd

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu enwi cyrff iechyd mewn cysylltiad ag amcanion y DU, roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu cynigion i gynnwys nifer fach o gyrff cyhoeddus sy’n ymwneud ag iechyd, fel Ymddiriedolaethau’r GIG, a fydd o bosibl yn gallu rhannu data mewn cysylltiad ag amcanion Cymru yn unig yn y dyfodol. Nid yw enwi cyrff iechyd yng Nghymru yn y ddeddfwriaeth yn eu hymrwymo i rannu data, ond mae’n eu galluogi i wneud hynny yn y dyfodol os pennir y byddai hyn yn fuddiol. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 13:**

A ydych yn cytuno y byddai caniatáu i gyrff sy'n ymwneud ag iechyd yng Nghymru rannu data i gefnogi amcanion gwasanaethau cyhoeddus penodol yn fuddiol? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

Atebodd yr 11 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cytuno | 10 |
| Anghytuno | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 |
| Cyfanswm | 11 |

**Cwestiwn 14:**

Pa fesurau diogelu y byddai angen iddynt fod ar waith er mwyn i ddata a gedwir gan gyrff iechyd gael ei rannu yng Nghymru?

Er bod yr ymatebion yn amrywio, roedd nifer o themâu allweddol a oedd yn gyffredin ar draws nifer o'r awgrymiadau a gawsom, fel:

- Amgryptio data a ffyrdd diogel o symud data o gwmpas;
- Egwyddorion presennol Caldicott ynghylch mynediad at wybodaeth lle byddai modd adnabod y claf, a’i defnyddio a’i throsglwyddo;
- Cytundebau clir ar yr hyn y gellid ei rannu a’r hyn na ellir ei rannu;
- Canllawiau a gweithdrefnau clir i ddilyn, yn unol â’r gofynion a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data

**Cwestiwn 15:**

Pa fathau o amcanion y gallai cyrff iechyd cyhoeddus eu cefnogi?

Nododd yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau o ran y mathau o amcanion y gallai cyrff iechyd eu cefnogi, gan gynnwys:

- Diogelwch cyhoeddus a chynlluniau argyfwng;
- Cefnogi'r rheini ag anghenion iechyd penodol;
- Lleihau anghydraddoldeb o ran incymau;
- Gwella cyflawniad addysgol;
- Cefnogi plant sy'n derbyn gofal;
- Cefnogi pobl sy’n ddi-waith ers cyfnod hir;
- Lleihau digartrefedd; a
- Chefnogi dioddefwyr troseddau

Roedd ymatebwyr o gyrff iechyd yng Nghymru hefyd yn teimlo y gellid defnyddio'r pwerau newydd i gefnogi amcanion presennol byrddau iechyd, fel:

- Gwella iechyd a lles;
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a darparu gofal yn agosach i gartrefi cleifion;
- Gwella canlyniadau gofal;
- Dysgu o brofiadau unigolion; a
- Defnyddio adnoddau’n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesi ac ymchwil.

**Penderfyniad**

Ychwanegwyd cyrff iechyd yng Nghymru ar Atodlen 5 Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ond ni chawsant eu henwi yn erbyn amcan. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn wrth gynllunio amcanion yn y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo i wneud rhagor o waith ymgysylltu cyn gosod yr amcanion hynny.

**Cwestiwn 16:**

A ddylai cyrff iechyd allu rhannu data at ddibenion ymdrin ag arian sy'n ddyledus i gyrff cyhoeddus neu dwyll yn eu herbyn? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.

Cymysg oedd y safbwyntiau ar hyn; roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylid rhoi’r pwerau hyn i gyrff iechyd o gwbl, ac roedd eraill yn teimlo bod amgylchiadau lle gallai data iechyd fod yn ddefnyddiol at ddibenion twyll a dyled.

O ran y pwerau dyled, codwyd pryderon ynglŷn â photensial y pwerau dyled newydd i atal pobl rhag ceisio cymorth meddygol pan mae ei angen arnynt os oeddent yn credu y gellid defnyddio'r data hyn i helpu i'w hadnabod a’u lleoli. Ar y llaw arall, roedd nifer o ymatebwyr yn credu y gallai cyrff iechyd ddefnyddio’r pwerau newydd i helpu i adfer dyledion gan ymwelwyr o dramor a oedd wedi defnyddio'r GIG mewn sefyllfaoedd nad oeddent yn rhai brys. Codwyd llai o bryderon ynglŷn â photensial cyrff iechyd i rannu rhywfaint o ddata at ddibenion delio â thwyll.

**Penderfyniad**

Nid yw cyrff iechyd yng Nghymru yn gallu rhannu data gan ddefnyddio’r pwerau newydd er mwyn nodi a mynd i'r afael â thwyll a dyled. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i newid hyn yn y dyfodol.

## 7. Y Gymraeg

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu pwysigrwydd sicrhau bod data sy’n cael eu darparu, eu casglu neu eu rhannu yn Gymraeg yn gallu cael eu defnyddio yn yr un modd â data yn Saesneg, a bod dewis y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ystyried. Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr:

**Cwestiwn 16:**

Ym mha ffyrdd eraill y gellid defnyddio'r ddeddfwriaeth hon er mwyn hyrwyddo neu gefnogi'r Gymraeg?

Roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo y gellid defnyddio’r pwerau newydd i sicrhau bod dewis unigolyn i gael gohebiaeth a chyfathrebiadau eraill yn Gymraeg yn cael ei gyfathrebu’n effeithiol.

Ar ben hynny, roedd un rhanddeiliad yn credu y gellid defnyddio’r rheoliadau newydd fel cyfle i bwysleisio ac ategu dilysrwydd Cymraeg fel iaith creu cofnodion swyddogol.

**Penderfyniad**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid defnyddio’r pwerau newydd i sicrhau bod dewis iaith unigolyn yn cael ei ddilyn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw effaith ar y Gymraeg yn cael ei hasesu’n llawn wrth ddatblygu unrhyw amcanion yn y dyfodol.

## 8. Materion eraill a nodwyd

Gofynnwyd y canlynol i ymatebwyr hefyd:

**Cwestiwn 17:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynglŷn â rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus, neu ynglŷn ag unrhyw un o'r meysydd uchod?

Roedd nifer o ymatebion yn darparu gwybodaeth ychwanegol neu’n codi rhagor o bryderon ynglŷn â rhannu data, yn arbennig o ran diogelwch a chywirdeb gwybodaeth, ac a yw’n cael ei defnyddio at y pwrpas a fwriedir. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pryderon y cyhoedd ynglŷn â sut mae data’n cael eu defnyddio, eu symud a’u rhannu yn ddilys, ac yn disgwyl bod yr holl gyrff cyhoeddus sy’n defnyddio’r pwerau newydd yn cymryd camau i sicrhau bod y data maent yn eu rhannu yn gywir ac yn cael eu storio’n ddiogel.

Hefyd, codwyd pryderon o ran a fyddai gan y cyrff cyhoeddus sy’n cael eu henwi, yn enwedig y rhai lleiaf, y gallu i gael y pwerau wedi’u rhoi iddynt, yn arbennig o gofio'r gofynion diogelu data ehangach a gyflwynwyd mewn cysylltiad â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cydymffurfio â GDPR ac y bydd defnyddio’r pwerau newydd yn arwain at rywfaint o ofynion o ran adnoddau i gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddylai’r drefn diogelu data ehangach atal cyrff datganoledig yng Nghymru rhag cael mynediad at yr un pwerau â chyrff heb eu datganoli a chyrff yn Lloegr. Mae'r pwerau newydd yn ganiataol ac os yw corff cyhoeddus yn teimlo nad oes ganddo'r gallu i ddefnyddio’r pwerau newydd yn ddiogel, ni fydd yn gorfod eu defnyddio. Bydd y pwerau newydd yn darparu sail glir a chyfreithiol dros rannu data ac ni fyddant yn golygu bod yn rhaid creu opsiynau cyfreithiol newydd sy’n gofyn am ddeddfwriaeth newydd, gan olygu y gellir rhannu data’n gyflymach o lawer.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Codau Ymarfer ar gyfer defnyddio'r holl bwerau newydd. Mae’r rhain yn nodi dyletswyddau’r corff cyhoeddus wrth rannu data, ynghyd â manylion am ba gamau mae angen eu cymryd cyn rhannu data – gan gynnwys cydymffurfio â GDPR. Mae’r Codau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

## 9. Sut rydym wedi defnyddio eich adborth

Mae’r adborth a gawsom wedi ein helpu i adolygu’n llawn a gorffen llunio'r rhestrau o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i’w hychwanegu at Atodlenni 4-8 Deddf yr Economi Ddigidol, a'r rhestrau o’r cyrff i’w henwi yn erbyn y pedwar amcan roedd Llywodraeth y DU yn eu gosod.

Cafodd y diwygiadau i Atodlenni Deddf yr Economi Ddigidol eu gwneud drwy Reoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2018, a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ar 25 Ebrill 2018.

Cafodd yr amcanion Anfanteision Amryfal, Ail-Diwnio Setiau Teledu, Tlodi Tanwydd a Thlodi Dŵr eu nodi yn Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Datgelu Gwybodaeth) 2018, a gymeradwywyd gan Dŷ’r Senedd ar 18 Gorffennaf 2018.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl awgrymiadau a wnaed o ran amcanion newydd ar gyfer y pwerau darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae wedi ymrwymo i ragor o waith ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch unrhyw amcanion newydd y byddwn yn dymuno eu gosod efallai.